
National Trust

Ein partneriaid

WALES

# Taith cilfachau cudd Plas Newydd

Mwynhewch olygfeydd trawiadol dros Afon Menai, y Faenol ac Eryri wrth gerdded o gwmpas tiroedd hardd Plas Newydd.




## Gwybodaeth

Cyfeiriad: Plas Newydd, Llanfairpwll, Ynys Môn, LL61 6DQ

Map AO: Landranger 114 or 115

Gweithgaredd: Cerdded

Cymedrol: Rhai grisiau ar i fyny. Am ragor o fanylion, darllenwch yr adran Tirwedd.

Ddim yn addas i gŵn: Caniateir cŵn yn y maes parcio ym Mhlas Newydd, ond ddim ar y tiroedd.

Llwybr llawn: Milltiroedd: 1 (km: 1.6)

Mynediad: Heriol

Hyd: 30 munud

## Tirwedd

Amrywiaeth o arwynebau yn cynnwys concrid a llwybrau naturiol, gyda rhai grisiau yn mynd ar i fyny.

## Cyfanswm y camau: 8

Man cychwyn: Plas Newydd, grid ref: SH521696.

1. Cychwynnwch eich taith oddi wrth y dderbynfa ym Mhlas Newydd a dilyn y llwybr sy'n eich arwain at y tŷ. Pan ewch chi rownd y gornel ar ôl y gysgodfan bren, mae'r llwybr yn agor i olygfeydd gwych o'r tŷ, y Faenol ac Eryri.
2. Ar ôl cyrraedd y tŷ, dilynwch y llwybr sy'n mynd o gwmpas tu blaen yr adeilad, a cherdded ar hyd rhan uchaf y lawnt. Chwiliwch am Dŵr Marcwis, y byddwch yn ei weld yn y pellter. Byddwch yn mynd heibio'r ardd derasau ar y chwith. Adfywiodd y Marcwis presennol yr ardd Eidalaidd ffurfiol a grëwyd gan ei dad yn yr 1920au. Er mwyn gweld gogoniant yr ardd derasau, ewch i ben y grisiau.
3. Gyferbyn â'r ardd derasau, cymrwch y llwybr sydd ar y dde i chi. Bydd hwn yn eich arwain i lawr y llwybr sy'n mynd heibio'r canonau a dderbyniodd Arglwydd ac Arglwyddes Môn fel anrheg priodas. Byddwch yn ofalus yma, mae disgyniad serth o wal y môr.
4. Ewch ymlaen nes byddwch chi'n cyrraedd fforch yn y llwybr. Arhoswch ar ochr dde'r llwybr, sy'n dringo ychydig.
5. Dilynwch y llwybr ar yr ochr chwith a mynd yn eich blaen. Wrth i chi ddilyn y llwybr hwn mae meinciau lle gallwch chi eistedd a mwynhau'r golygfeydd ar draws at y Faenol a thynnu lluniau trawiadol. Edrychwch i'r dde tuag at y Cylch Camelia, oedd yn chwarel ar un adeg.
6. Pan ddewch chi i ardal o goetir, Coed Banc yr Eglwys, cerddwch yn syth ymlaen ac yn y pen draw byddwch yn cyrraedd y guddfan adar. Daliwch i fynd i'r dde ar hyd y llwybr, sy'n mynd â chi ar i fyny ar risiau coetir naturiol. Ar ben y bryn mae mainc y gallwch chi weld Eglwys Llanedwen ohoni. Roedd y Marcwis a'i deulu'n defnyddio'r eglwys hon yn gyson.
7. Dilynwch y llwybr i ddod o hyd i'r guddfan wiwerod ar y dde. Mae Plas Newydd yn gartref i lawer o wiwerod coch, ar ôl prosiect cadwraeth yn 2008. Daethpwyd â chwe gwiwer goch i Blas Newydd a'u cadw mewn rhan gaeedig o'r goedwig am ychydig

wythnosau. Yna fe gawson nhw eu rhyddhau i'r coed collddail. Fe wnaethon nhw fagu'n llwyddiannus ac maen nhw bellach i'w gweld drwy'r ystâd ac mae rhai wedi croesi Afon Menai hyd yn oed.

8. Dilynwch y llwybr sy'n mynd â chi nôl at y dderbynfa. Mi fyddwch chi'n haeddu paned a chacen flasus yma ar ôl eich taith yn Gaffi'r Hen Laethdy.

Man gorffen: Plas Newydd, cyfeirnod grid: SH521696